Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Russell Hughes-Pickering**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Economi ac Adfywio**
**Corporate Lead Officer : Economy and Regeneration**

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**TALIADAU RHEOLIADAU ADEILADU**
**RHEOLIADAU ADEILADU (TALIADAU AWDURDODAU LLEOL) 2010**
**01/04/2024**

**Nodiadau Eglurhaol**

**1** Cyn i chi adeiladu, ymestyn neu drosi adeilad, bydd yn rhaid i chi neu‟ch asiant hysbysu‟r awdurdod lleol, naill ai drwy gyflwyno Cynlluniau Llawn neu Hysbysiad Adeiladu. Bydd y ffi sy‟n daladwy yn dibynnu ar y math o waith dan sylw, nifer yr anheddau yn yr adeilad a chyfanswm arwynebedd y llawr. Gallwch ddefnyddio‟r tablau canlynol ochr yn ochr â‟r Rheoliadau Ffioedd wrth gyfrifo‟r taliadau. Os ydych yn cael trafferth yn cyfrifo‟r taliadau, cysylltwch â‟r Adain Rheoli Adeiladu yn y cyfeiriad uchod neu drwy alw **01545 572487** neu **01545 570881**.
**2 Mae'r ffioedd yn daladwy fel a ganlyn**: Os byddwch yn cyflwyno Cynlluniau Llawn bydd yn rhaid i chi dalu tâl cynllun wrth eu cyflwyno, i dalu am y costau o‟u cymeradwyo neu‟u gwrthod. Wrth gyflwyno Cynlluniau Llawn ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o waith, bydd gofyn rhoi tâl archwilio ar ôl yr archwiliad cyntaf, i dalu am yr holl archwiliadau o‟r safle y bydd yn rhaid eu cynnal. Os byddwch yn cyflwyno Hysbysiad Adeiladu, bydd gofyn rhoi‟r Tâl Hysbysiad Adeiladu priodol wrth gyflwyno‟r hysbysiad, i dalu am yr holl wiriadau ac ymweliadau safle a fydd yn ofynnol. Os byddwch yn gwneud cais am Dystysgrif **Rheoleiddio** ar gyfer gwaith adeiladu heb ei awdurdodi a ddechreuwyd ar 11 Tachwedd 1985 neu ar ôl hynny, byddwch yn talu tâl rheoleiddio a fydd yn cynnwys y gost o asesu‟ch cais a‟r holl archwiliadau. **Mae'r tâl yn gyfwerth â'r Tâl Hysbysiad Adeiladu (heb TAW) a 50% ychwanegol**. Ac eithrio‟r tâl Rheoleiddio, codir TAW ar y gyfradd briodol ar holl daliadau‟r awdurdod lleol. Mewn rhai achosion gall yr Awdurdod Lleol gytuno i dderbyn ffioedd mewn rhandaliadau. Cysylltwch â‟r Adain Rheoli Adeiladu am fwy o fanylion.

Cyfrifir y taliadau am waith Rheoli Adeiladu er mwyn sicrhau bod modd adennill yr holl gostau am y rhannau hynny o‟r gwasanaeth y codir ffioedd amdanynt, ac o ganlyniad i hynny, y gyfradd fesul awr yw £60. Gall y Cyngor ddefnyddio dau ddull o bennu tâl ar gyfer gwaith Adeiladu.

**1. Taliadau Safonol**

Mae‟r Awdurdod wedi pennu‟r taliadau safonol hyn ar y sail nad yw‟r gwaith adeiladu yn cynnwys unrhyw dechnegau adeiladu arloesol neu â risg uchel, nac yn waith sy‟n cynnwys manylion a chyfrifiadau strwythurol helaeth, na dyluniadau wedi‟u llunio ar sail egwyddorion tân ac y credir fod arnynt angen eu gwirio gan ymgynghorwyr arbenigol y Cyngor (mae manylion llawn ar gael gan yr Awdurdod). Os penderfynir bod yr uchod yn berthnasol, yna gall y Cyngor godi taliadau atodol am gyflawni ei swyddogaethau statudol.
Pennwyd y taliadau hefyd ar y sail bod yr unigolyn neu‟r cwmni sy‟n ymgymryd â‟r gwaith dylunio ac adeiladu yn gymwys i gyflawni‟r mathau o waith dylunio ac adeiladu y cyfeirir atynt yn y tablau safonol. Os nad ydynt, gellid codi taliadau atodol am y gwaith.

Pe bai‟r sail a ddefnyddiwyd i bennu‟r tâl yn newid, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi ad-daliad neu‟n codi tâl atodol, ac yn darparu datganiad ysgrifenedig yn egluro‟r sail ar gyfer yr ad-daliad/tâl atodol

Os rhoddir cyngor y gellir codi tâl amdano mewn perthynas ag unrhyw waith a nodir yn y tablau, ac os yw‟r awdurdod yn treulio llai o amser ar y cais yn sgil hynny, yna gellid gostwng y tâl safonol.

**Noder –** Os yw eich cais **domestig** yn dod o dan unrhyw un o‟r **Taliadau Safonol** a restrir, a‟ch bod yn cynnig cyflogi trydanwr nad yw‟n Gontractwr Trydanol Cofrestredig **Rhan P**, yna bydd y taliadau trydanol a nodir yn **Nhabl B1** yn daladwy yn ogystal â‟r tâl safonol wrth gyflwyno‟r cais.

**2. Tâl a Bennir yn Unigol**

Y mae a wnelo‟r dull hwn o bennu‟r tâl â chynlluniau mwy o faint, a‟r rhan helaeth o waith adeiladu annomestig.

Os nad yw‟ch cynnig yn dod o dan y tablau o daliadau safonol, yna byddwn yn pennu‟r tâl yn unigol. Os pennir fod gofyn cynnal asesiad o‟r gwaith adeiladu, dylech gysylltu â‟r Adain Rheoli Adeiladu yn y cyfeiriad uchod, neu anfonwch e-bost at buildingcontrol@ceredigion.gov.ukgan nodi "*Cais am Dâl Rheoliadau Adeiladu*" yn nhestun yr e-bost a rhoi disgrifiad o‟r gwaith arfaethedig. Byddwn wedyn yn cysylltu â chi ymhen 24 awr, neu gallwch ffonio **01545 572487** neu **01545 570881**

**Cyngor y gellir Codi Tâl amdano**

Gall y Cyngor godi tâl am roi cyngor cyn derbyn cais neu hysbysiad mewn unrhyw achos penodol, a bydd hynny‟n daladwy ar ôl yr awr gyntaf o gyngor, ar gais y Cyngor ar ôl iddo gadarnhau‟r tâl. Gellid didynnu‟r tâl hwn o gost unrhyw gais neu hysbysiad ysgrifenedig a dderbynnir yn ddiweddarach am y gwaith dan sylw.

**Eithrio o Daliadau (Cyfleusterau i'r anabl)**

Gwaith mewn cysylltiad ag annedd sydd eisoes yn bod lle mae rhywun anabl yn preswylio yno yn barhaol; a lle mai unig nod yr holl waith adeiladu dan sylw yw sicrhau gwell iechyd, diogelwch a lles neu gyfleuster i unigolyn anabl.

**Noder**

Yn y rheoliadau hyn, ystyr „unigolyn anabl‟ yw unigolyn sy‟n cyfateb i unrhyw rai o‟r disgrifiadau o bobl yr oedd Adran 29 (1) Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948, fel y‟i diwygiwyd gan Adran 8 (2) Deddf Iechyd Meddwl 1959, yn berthnasol iddynt, ond gan anwybyddu unrhyw ddiwygiadau a wnaethpwyd dan baragraff 11, atodlen 13 Deddf Plant 1989. Arfaethir y bydd adran 66 (2), Atodlen 10 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 yn diddymu‟r cymal yn adran 8 (2) Deddf Iechyd Meddwl 1959, a oedd yn ehangu ystyr „unigolyn anabl‟ fel yr oedd yn adran 29 (1) Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948, ar ddyddiad i‟w bennu.

**Eithrio o Daliadau (Inswleiddio Waliau Ceudod)**

Mae gosod defnydd inswleiddio mewn wal geudod sydd eisoes yn bod yn eithriedig o unrhyw ffioedd, ar yr amod fod y gwaith wedi‟i ardystio i safon gymeradwy, a bod unigolyn cymeradwy yn cyflawni‟r gwaith.

**Cwyno am Daliadau**

Os oes gennych gŵyn am lefel y taliadau, dylech fynegi eich pryderon yn y lle cyntaf i‟r Prif Swyddog Rheoli Adeiladu ar **01545 572487** neu **01545 570881**, neu anfonwch e-bost at buildingcontrol@ceredigion.gov.ukgan roi „Taliadau Rheoliadau Adeiladu‟ fel testun yr e-bost. Os nad yw‟r swyddog yn datrys eich cwyn, mae gan y Cyngor drefn gynhwysfawr ar gyfer ymdrin â chwynion, a gallwch gysylltu â‟r Swyddog Cwynion yn Adran y Prif Weithredwr ar www.ceredigion.gov.uk/English/Your-Council/Complaints/Pages/How-Do-I-Make-a-Complaint.aspx

**Dim ond nodiadau cyfarwyddyd yw'r rhain ac nid ydynt yn disodli Offeryn Statudol 2010 (SI 2010 / 404) sydd yn cynnwys datganiad llawn o'r Rheoliadau**

**TABL A**

**Anheddau Domestig Bach hyd at 300 metr sgwâr, gan gynnwys trosi tai allan i anheddau**

Mae hyn yn cynnwys y ffioedd ar gyfer adeiladu anheddau newydd a throsi tai allan i greu anheddau. Os yw‟r uned rhwng 300 metr sgwâr a 400 metr sgwâr, cyfeiriwch at **Dabl A (1).** Os ydych chi‟n bwriadu codi datblygiad o dai yn cynnwys mwy na deg uned, neu adeiladu anheddau mwy na 400 metr sgwâr, cysylltwch â‟r Adain Rheoli Adeiladu.

**TABL B**
**Mân Waith Domestig**
Mae hyn yn cynnwys mathau penodol o waith mewn eiddo domestig, ac os bwriedir adeiladu mwy nag un estyniad ar yr un pryd, gellir cyfuno arwynebedd y lloriau i roi cyfanswm ar gyfer y cyfan. Os yw‟r estyniad (neu‟r estyniadau) yn fwy na 100 metr sgwâr, cysylltwch â‟r Adain Rheoli Adeiladu.

**TABL B (1)**
**Gosodiadau Trydanol Domestig**
Mae a wnelo‟r tabl hwn â gosodiadau trydanol mewn eiddo domestig, lle **na chyflawnir** y gosodiad gan unigolyn cymwys â chofrestriad **Rhan P**; dyma rywun sy‟n drydanwr cymwys sydd hefyd â gwybodaeth ddigonol am Reoliadau Adeiladu sy‟n galluogi ei gorff achredu i ardystio ei waith.

**TABL C Mân Waith Annomestig**
Mae‟r tabl hwn yn cynnwys gwaith cyffredin a phenodol mewn adeiladau annomestig.

**TABL D**
**Unrhyw fath arall o waith**
Yn berthnasol i unrhyw fath arall o waith adeiladu nad yw‟r tablau uchod yn eu cynnwys. Cyfanswm amcangyfrif cost y gwaith amcan bris a dderbynnir gan yr awdurdod lleol fel cost resymol y buasai person busnes yn ei godi am y gwaith a nodir yn y cais, ac eithrio TAW ac unrhyw ffioedd proffesiynol a delir i bensaer, peiriannydd neu syrfëwr ac ati, gan eithrio hefyd unrhyw gostau o ran caffael tir.

**TABL A (Atodlen 1: Anheddau Domestig Bach hyd at 300 metr sgwâr, gan gynnwys trosi tai allan i anheddau)**

| Nifer yr Anheddau | CYNLLUNIAU LLAWN | | | | HYSBYSIAD ADEILADU | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tâl Cynllun (£) | | Tâl Archwilio'r Safle (£) | | Tâl Hysbysiad Adeiladu (£) | |
| | *Heb TAW* | *Gyda TAW* | *Heb TAW* | *Gyda TAW* | *Heb TAW* | *Gyda TAW* |
| *1* | 290.00 | **348.00** | 604.00 | **724.80** | 895.00 | **1,074.00** |
| *2* | 378.00 | **453.60** | 849.00 | **1018.80** | 1,227.00 | **1,472.40** |
| *3* | 465.00 | **558.00** | 1068.00 | **1,281.60** | 1,532.00 | **1,838.40** |
| *4* | 551.00 | **661.20** | 1,307.00 | **1,568.40** | 1,857.00 | **2,228.40** |
| *5* | 651.00 | **781.20** | 1,565.00 | **1,878.00** | 2,216.00 | **2,659.20** |
| *6* | 742.00 | **890.40** | 1,818.00 | **2,181.60** | 2,560.00 | **3,072.00** |
| *7* | 830.00 | **996.00** | 2,063.00 | **2,475.60** | 2,893.00 | **3,471.60** |
| *8* | 916.00 | **1,099.20** | 2.282.00 | **2,738.40** | 3,197.00 | **3,836.40** |
| *9* | 942.00 | **1,130.40** | 2,541.00 | **3,049.20** | 3,483.00 | **4,179.60** |
| *10* | 1008.00 | **1,209.60** | 2,779.00 | **3,334.80** | 3,787.00 | **4,544.40** |

**Trosiad i:**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fflat 1- 4 | 358.00 | **429.60** | 669.00 | **802.80** | 1,028.00 | **1,233.60** |
| Fflat 5 -10 | 484.00 | **580.80** | 922.00 | **1,106.40** | 1,406.00 | **1,687.20** |

**TABLE B – Mân Waith Domestig**

| Math o Waith | CYNLLUNIAU LLAWN | | | | HYSBYSIAD ADEILADU | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tâl Cynllun (£) | | Tâl Archwilio'r Safle (£) | | Tâl Hysbysiad Adeiladu (£) | |
| | *Heb TAW* | *Gyda TAW* | *Heb TAW* | *Gyda TAW* | *Heb TAW* | *Gyda TAW* |
| **Trosi garej dddomestig i fod yn lle y gellir byw ynddo** | 132.00 | **158.40** | 200.00 | **240.00** | 332.00 | **398.40** |
| **Ymestyn Garej/cysgodfa ceir** (hyd at **60 metr sgwâr**) | 132.00 | **158.40** | 285.00 | **342.60** | 417.00 | **500.40** |
| **Adeiladu neu ymestyn garej ar wahân nad yw'n eithriedig** (hyd at **100 metr sgwâr**) | 173.00 | **207.60** | 325.00 | **390.00** | 498.00 | **597.60** |
| **Unrhyw waith i ymestyn annedd neu drosi atig** (cyfanswm arwynebedd y llawr heb fod yn fwy na **10 metr sgwâr**) | 173.00 | **207.60** | 325.00 | **390.00** | 498.00 | **597.60** |
| **Unrhyw waith i ymestyn annedd neu drosi atig** (cyfanswm arwynebedd y llawr yn fwy na **10 metr sgwâr** ond heb fod yn fwy na **20 metr sgwâr**) | 173.00 | **207.60** | 412.00 | **494.40** | 585.00 | **702.00** |
| **Unrhyw waith i ymestyn annedd neu drosi atig** (cyfanswm arwynebedd y llawr yn fwy na **20 metr sgwâr** ond heb fod yn fwy na **40 metr sgwâr**) ) | 219.00 | **268.40** | 452.00 | **5542.40** | 670.00 | **804.00** |
| **Unrhyw waith i ymestyn annedd neu drosi atig** (cyfanswm arwynebedd y llawr yn fwy na **40 metr sgwâr** ond heb fod yn fwy na **100 metr sgwâr**) ) | 259.00 | **310.80** | 498.00 | **597.60** | 757.00 | **908.40** |
| **Adnewyddu hyd at 10 o ffenestri domestig** (Unigolyn Anghymwys) | 172.00 | **206.40** | | | 172.00 | **206.40** |
| **Adnewyddu rhwng 10 ac 20 o ffenestri domestig** (Unigolyn Anghymwys) | 233.00 | **279.60** | | | 233.00 | **279.60** |
| **Gosod gwasanaeth a reolir neu gyflawni gosodiad ar wahân i waith adeiladu arall** | 215.00 | **258.00** | | | 215.00 | **258.00** |
| **Adnewyddu elfen thermol (Annedd)** | 215.00 | **258.00** | | | 215.00 | **258.00** |

**TABL B1 – Gosodiadau Trydanol Domestig**

| Math o Waith | HYSBYSIAD ADEILADU | |
|---|---|---|
| | Tâl Hysbysiad Adeiladu (£) | |
| | *Heb TAW* | *Gyda TAW* |
| **Unrhyw waith trydanol ac eithrio ailweirio annedd** | 418.00 | **501.60** |
| **Gosodiadau trydanol mewn anheddau newydd, neu ailweirio** | 670.00 | **804.00** |

**TABL C – Mân Waith Annomestig**

| Math o Waith | HYSBYSIAD ADEILADU | |
|---|---|---|
| | Tâl Hysbysiad Adeiladu (£) | |
| | *Heb TAW* | *Gyda TAW* |
| **Gosod hyd at 20 o ffenestri annomestig** | 292.00 | **350.40** |
| **Gosod mwy na 20 o ffenestri annomestig** | 397.00 | **476.40** |
| **Adnewyddu elfen thermol (Annomestig) gydag amcangyfrif cost hyd at £50,000** | 439.00 | **526.80** |
| **Adnewyddu elfen thermol (Annomestig) gydag amcangyfrif cost mwy na £50,000** | 563.00 | **675.60** |

**TABL D (Unrhyw fath arall o waith)**

| Amcangyfrif o gost y gwaith | CYNLLUNIAU LLAWN | | | | HYSBYSIAD ADEILADU | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tâl Cynllun (£) | | Tâl Archwilio (£) | | Hysbysiad Adeiladu (£) | |
| £ | *Heb TAW* | *Gyda TAW* | *Heb TAW* | *Gyda TAW* | *Heb TAW* | *Gyda TAW* |
| 0 - 5,000 | 272.00 | **326.40** | | | 272.00 | **326.40** |
| 5,001 - 15,000 | 173.00 | **207.60** | 285.00 | **342.00** | 459.00 | **550.80** |
| 15,001 - 25,000 | 259.00 | **310.80** | 365.00 | **438.00** | 623.00 | **747.60** |
| 25,001 - 40,000 | 298.00 | **357.60** | 491.00 | **589.20** | 790.00 | **948.60** |
| 40,001 - 60,000 | 352.00 | **422.40** | 642.00 | **770.40** | 993.00 | **1,191.60** |
| 60,001 - 80,000 | 384.00 | **460.80** | 683.00 | **819.60** | 1,069.00 | **1,282.80** |
| 80,001 - 100,000 | 426.00 | **511.20** | 810.00 | **972.00** | 1,235.00 | **1,482.00** |

**Os nad yw argymhelliad yn dod o fewn y tabl tâl safonol, yna gall ymgeiswyr ofyn am dâl unigol ar gyfer y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu, drwy ebostio'r cyfeiriad canlynol – buildingcontrol@ceredigion.go.uk neu ffonio 01545 572487** neu **01545 570881.**

**Codir tâl rheoleiddio am gais am Dystysgrif Rheoleiddio, yng nghyswllt gwaith adeiladu heb awdurdod, a ddechreuwyd ar neu ar ôl 11eg Dachwedd 1985, er mwyn talu am gost asesu'r cais a phob archwiliad. Mae'r tâl yn cyfateb i Dâl Hysbysiad Adeiladu (heb gynnwys TAW) a 50%.**